## ATODLEN 4

Rheoliad 17

### Penodi llywodraethwyr partneriaeth

**1.** Pan fo'n ofynnol penodi llywodraethwr partneriaeth—

(a) rhaid i gorff llywodraethu ffederasiwn geisio enwebiadau gan rieni disgyblion cofrestredig mewn ysgolion yn y ffederasiwn nad oes ganddynt sefydliad a chan y cyfryw bersonau eraill y tybia'n briodol yn y gymuned a wasanaethir gan y ffederasiwn; a

(b) caiff corff llywodraethu ffederasiwn geisio enwebiadau gan rieni disgyblion cofrestredig mewn ysgolion eraill yn y ffederasiwn fel y tybia'n briodol.

**2.** Ni chaiff unrhyw berson enwebu i'w benodi, na phenodi, person yn llywodraethwr partneriaeth oni fyddai'r person hwnnw'n gymwys i'w benodi gan gorff llywodraethu'r ffederasiwn yn llywodraethwr cymunedol.

**3.**—(1) Yn achos ysgol arbennig sefydledig heb sefydliad, rhaid i gorff llywodraethu ffederasiwn benodi yn llywodraethwr partneriaeth o leiaf un person sydd â phrofiad o addysg ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, onid oes diffyg enwebai cymwys sydd â phrofiad o'r fath.

(2) Wrth geisio enwebiadau ar gyfer llywodraethwr partneriaeth mewn ysgolion arbennig sefydledig, rhaid i gorff llywodraethu'r ffederasiwn gymryd camau i sicrhau bod personau sy'n gwneud enwebiadau yn ymwybodol o'r gofyniad ym mharagraff (1).

**4.** Yn ddarostyngedig i baragraff 5(2), ni chaiff unrhyw lywodraethwr enwebu person i'w benodi'n llywodraethwr partneriaeth.

**5.**—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu benodi pa bynnag nifer o lywodraethwyr partneriaeth sy'n ofynnol yn ôl yr offeryn llywodraethu o blith enwebeion cymwys.

(2) Os yw'r nifer o enwebeion cymwys yn llai na'r nifer o leoedd gwag, ceir cwblhau'r nifer o lywodraethwyr partneriaeth sy'n ofynnol â phobl a ddetholir gan gorff llywodraethu'r ffederasiwn.

**6.**—(1) Pan fo corff llywodraethu ffederasiwn yn gwneud penodiad o dan baragraff 5(2), ar ôl gwrthod unrhyw berson a enwebwyd o dan baragraff 1, rhaid iddo roi rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad i'r awdurdod lleol ac i'r person a wrthodwyd.

(2) Pan fo ffederasiwn yn cynnwys ysgolion a gynhelir gan ragor nag un awdurdod lleol rhaid dehongli'r cyfeiriad yn is-baragraff (1) at awdurdod lleol fel cyfeiriad at bob un o'r awdurdodau lleol.

**7.** Rhaid i gorff llywodraethu ffederasiwn wneud pob trefniant angenrheidiol ar gyfer enwebu a phenodi llywodraethwyr partneriaeth a phenderfynu ynghylch pob mater arall yn ymwneud â'u henwebu a'u penodi.